Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg |
This document is also available in Welsh

# Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr Addysg Uwch (AU): Cynlluniau Cyflawni 2025/26 - 2026/27 a dyraniadau 2025/26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Awst 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/09 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr ar gyfer darpariaeth AU |

| | |
|---|---|
| **Ymateber erbyn:** | 19 Medi 2025 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Emma Mock \| emma.mock@medr.cymru<br>Rachel O'Gorman \| rachel.ogorman@medr.cymru |


## Crynodeb

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi gofynion Medr ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni dwy flynedd sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2025/26 a 2026/27 ar gyfer y darparwyr AU hynny sy'n cael cyllid ar hyn o bryd ar gyfer Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr AU. Mae'n cyhoeddi'r gyllideb o £2m ym mlwyddyn academaidd 2025/26 ar gyfer y cymorth hwn ac yn manylu ar ddyraniadau ariannol darparwyr. Mae hefyd yn cynnwys y llinell amser ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni, taliadau a monitro ar gyfer 2025/26 ac yn atodi'r templed ar gyfer cynlluniau cyflawni.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi |
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Crynodeb o’r cyhoeddiad

1. Mae’r cyhoeddiad hwn yn nodi gofynion Medr ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni dwy flynedd sy’n cwmpasu’r cyfnod rhwng 2025/26 a 2026/27 ar gyfer darparwyr addysg uwch (AU) sy’n cael cyllid ar hyn o bryd ar gyfer Cymorth Cyflogadwyedd wedi’i Dargedu i Fyfyrwyr AU. Mae’n cyhoeddi’r gyllideb o £2m ym mlwyddyn academaidd 2025/26 ar gyfer y cymorth hwn ac yn manylu ar ddyraniadau ariannol darparwyr. Bydd cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn amodol ar gyllideb Medr.

2. Dylid defnyddio’r cyllid hwn i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr sy’n astudio cyrsiau AU sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol fel a ddiffinnir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

3. Dylai cynlluniau cyflawni adeiladu ar gynnydd a wnaed yn y tair blynedd flaenorol o weithgarwch a gyllidwyd, gan roi darpariaeth hyblyg a phwrpasol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i’w harfogi â’r cyfalaf cymdeithasol ac ariannol i’w helpu i gael deilliant cadarnhaol ar ôl graddio. Dylai gweithgarwch fod wedi’i dargedu, ystyried llais y myfyriwr a chael ei gyflawni mewn cydweithrediad gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys gwasanaethau myfyrwyr a chyflogwyr, gan amcanu at ddileu rhwystrau i gyflogadwyedd a grymuso myfyrwyr i gymryd perchnogaeth ar lywio eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

**Dyraniadau 2025/26**

| Darparwr | Cyfanswm cyllid (£) |
|---|---:|
| Prifysgol De Cymru | 325,261 |
| Prifysgol Aberystwyth | 154,148 |
| Prifysgol Bangor | 150,304 |
| Prifysgol Caerdydd | 330,000 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 152,469 |
| Prifysgol Abertawe | 330,000 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 238,931 |
| Prifysgol Wrecsam | 100,000 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 176,503 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 32,385 |
| Grŵp NPTC Group | 5,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 5,000 |
| **Cyfanswm** | **2,000,000** |

4. Mae dyraniadau darparwyr yn 2025/26 wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio data gwiriedig diweddaraf HESA ar gyfer 2023/24 yn ôl y fethodoleg gyllido a amlinellir ym mharagraffau 37-41 yn y cyhoeddiad hwn.

5. Bydd taliadau cyfran gyntaf 2025/26 yn cael eu gwneud yn dilyn cymeradwyo cynlluniau cyflawni a monitro diwedd blwyddyn ar gyfer 2024/25.

**Llinell amser**

6. Mae gofyn i brifysgolion a Grŵp Llandrillo Menai:
    - Gyflwyno cynlluniau cyflawni gan ddefnyddio **Atodiad A** ac **Atodiad B** i rachel.ogorman@medr.cymru erbyn 19 Medi 2025.
    - Cyflwyno adroddiadau monitro i ni ym mis Chwefror 2026 a mis Medi 2026 (bydd Medr yn anfon templedi unigoledig at ddarparwyr ar wahân).

7. Bydd gofyn i Goleg Gŵyr Abertawe a Grŵp Colegau NPTC:
    - Gyflwyno cynlluniau cyflawni gan ddefnyddio **Atodiad C** i rachel.ogorman@medr.cymru erbyn 19 Medi 2025.
    - Cyflwyno adroddiad monitro i ni ym mis Medi 2026 (bydd templed yn cael ei anfon ar wahân).

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi gofynion Medr ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni dwy flynedd sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2025/26 a 2026/27 ar gyfer y darparwyr AU hynny sy'n cael cyllid ar hyn o bryd ar gyfer Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr. Mae'n cyhoeddi'r gyllideb o £2m ym mlwyddyn academaidd 2025/26 ar gyfer y cymorth hwn ac yn manylu ar ddyraniadau ariannol darparwyr. Mae hefyd yn cynnwys y llinell amser ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni, taliadau a monitro ar gyfer 2025/26 ac yn atodi'r templed ar gyfer cynlluniau cyflawni.

## Cyd-destun polisi

2. Cyflwynwyd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022 ac fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 08 Medi 2022. Mae Deddf 2022 yn gosod dyletswydd strategol ar Medr i hybu cyfle cyfartal trwy roi cymorth i fyfyrwyr sy'n gorffen cyrsiau addysg drydyddol yng Nghymru sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol [1] barhau â'u haddysg drydyddol, dod o hyd i gyflogaeth neu ddechrau busnes.

3. Mae Cynllun Strategol Medr yn nodi ei ymateb i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, sy'n cynnwys nodau i sicrhau bod addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr, ac i greu system drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.

4. Mae ein Cynllun Gweithredol yn nodi'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni i gyrraedd y nod strategol hwn, gan gynnwys sut y byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn gwella cyflogadwyedd dysgwyr yng Nghymru, yn monitro effeithiolrwydd gweithgarwch cyfredol ac yn pennu cwmpas gweithgarwch yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu fel un o'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni.

## Nod y cyllid

5. Mae'r cyllid Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr yn galluogi darparwyr AU i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau AU sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Felly mae'r cyllid hwn yn cyd-fynd â dyletswyddau strategol Medr, gan gynnwys hybu cyfle cyfartal ac economi gynaliadwy ac arloesol.

6. Rhaid i weithgarwch ganolbwyntio ar y lleiafrif o fyfyrwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gynigir trwy ddarpariaeth graidd i'r corff myfyrwyr cyfan, o fewn y cwricwlwm a'r tu allan iddo. Dylai'r cymorth fod wedi'i dargedu at y myfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur i'w harfogi i gyflawni deilliant cadarnhaol pan fyddant yn graddio. Dylai eu helpu i wireddu eu potensial a chyrraedd eu nodau a chwrdd â'u dyheadau. Yn y tymor hwy, rydym yn disgwyl

[1] Mae'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn nodi mai grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yw'r grwpiau a nodir yn y telerau ac amodau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg berthnasol o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

gweld tystiolaeth o effaith y cyllid hwn trwy lai o wahaniaeth yn y deilliannau cyflogaeth gwahaniaethol yr adroddir arnynt trwy'r Arolwg Hynt Graddedigion.

7. Mae'r cyllid hwn yn cyd-fynd â nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae egwyddorion allweddol y Ddeddf wedi'u gwreiddio yn y gofynion ar gyfer y cyllid hwn.

### Gofynion rhwng 2025/26 - 2026/27

8. Caiff disgwyliadau a gofynion Medr ar gyfer y ddwy flynedd academaidd nesaf eu nodi isod. Dylai gweithgarwch:

   i. adeiladu ar gynnydd a wnaed ers 2022/23, gan ystyried adborth monitro blaenorol Medr a gwerthusiad darparwyr o weithgarwch 2024/25 i oleuo'r hyn a gyflawnir yn y dyfodol;
   ii. bod wedi'i dargedu, gan amcanu at ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol ac yr ystyrir eu bod bellaf o'r farchnad lafur, megis myfyrwyr sydd heb gyfalaf cymdeithasol ac ariannol;
   iii. bod yn hyblyg a chael ei arwain gan fyfyrwyr, gan fod wedi'i deilwra i amgylchiadau a gofynion y myfyriwr unigol;
   iv. adnabod rhwystrau i ddatblygu cyflogadwyedd myfyriwr fel bod cymorth yn cael ei dargedu'n briodol ac yn rhoi chwarae teg i'r myfyrwyr a gefnogir;
   v. meithrin hyder a grymuso myfyrwyr a gefnogir i berchnogi eu cyflogadwyedd;
   vi. adeiladu ar weithgarwch darparwyr i ehangu mynediad at addysg uwch, trwy gynorthwyo myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg berthnasol o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol i gynyddu i'r eithaf eu cyfleoedd ar gyfer deilliant cyflogaeth cadarnhaol;
   vii. bod yn rhan o ddull cydgysylltiedig o ddatblygu cyflogadwyedd y myfyrwyr, sy'n ystyried eu llesiant ac yn rhoi sylw i ystyriaethau eraill;
   viii. cael ei ddatblygu a'i gyflawni mewn cydweithrediad gyda phartneriaid megis gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, Undebau Myfyrwyr a chyflogwyr;
   ix. sicrhau ei fod yn ystyried barn a phrofiadau myfyrwyr;
   x. bod yn ataliol trwy adnabod a chefnogi'r myfyrwyr y mae arnynt angen y cymorth cyflogadwyedd ychwanegol hwn cyn eu bod yn gadael addysg uwch (fodd bynnag, cyfeirier at baragraff 19-21 mewn perthynas â'r cymorth a estynnir i nifer gyfyngedig o raddedigion).

### Grwpiau sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

9. Rhaid i'r cyllid gefnogi unigolion sy'n astudio cymhwyster addysg uwch mewn darparwr yng Nghymru sydd o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, dylai cymorth gael ei dargedu at yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod bellaf o'r farchnad lafur y mae arnynt angen cymorth cyflogadwyedd ychwanegol. Mae Medr yn gweithio i ddiffinio'r grwpiau hynny yr ystyrir eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu

sefydliadol, ond nes darperir canllawiau pellach, rydym yn ystyried y bydd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU yn dal i gynnwys, ymhlith eraill:

- myfyrwyr anabl;
- myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl;
- myfyrwyr niwrowahanol (er enghraifft, myfyrwyr ag awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD));
- myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd;
- myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal;
- myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol[2];
- myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys cyfrifoldebau rhiant;
- myfyrwyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches;
- myfyrwyr o ardal amddifadus (h.y. dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC));
- myfyrwyr o ardal â chyfranogiad isel mewn AU (h.y. dau gwintel isaf POLAR 4);
- myfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel;
- myfyrwyr sydd y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r brifysgol;
- myfyrwyr sy'n uniaethu fel LHDTC+;
- myfyrwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr[3];
- myfyrwyr sy'n cymudo, h.y. myfyrwyr sy'n byw yn eu cartref teuluol ac yn teithio'n ddyddiol i'w darparwr addysg uwch i astudio.

10. Mae'n ofynnol i ddarparwyr nodi yn eu cynlluniau cyflawni pa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y byddant yn eu blaenoriaethu ar gyfer y cymorth hwn, gan gynnwys unrhyw ddata neu sylfaen dystiolaeth i ddangos angen ychwanegol. Rydym yn disgwyl i'r grwpiau hyn gyd-fynd â'r rhai a enwir yng nghynlluniau ffioedd a mynediad a strategaethau ehangu mynediad sefydliadau rheoleiddiedig neu eu dogfennau cyfatebol i hybu cyfle cyfartal. Dylai'r holl fyfyrwyr a gefnogir uniaethu ag o leiaf un o'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a nodir yng nghynllun cyflawni darparwr, yn ogystal â dangos bod arnynt angen cymorth cyflogadwyedd ychwanegol.

11. Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi myfyrwyr AU o bob oed, sy'n astudio ar sail amser llawn neu ran-amser.

---

[2] Mae Medr yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyfeiriadau at gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dyfarnwyd y Siarter Cydraddoldeb Hil i wyth brifysgol yng Nghymru yn 2025. Mae'r Siarter yn helpu prifysgolion i adnabod rhwystrau a wynebir gan staff a myfyrwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac ymdrin â hwy, gan hefyd ddarparu fframwaith ar gyfer gweithredu a gwella. Mae hefyd yn ymateb i'r disgwyliadau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

[3] Mae'r disgrifiad hwn yn cyd-fynd â'r nodau, a bydd yn cyfrannu tuag at y nodau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 Llywodraeth Cymru

**Gweithgareddau cyflogadwyedd**

12. Er bod gan ddarparwyr hyblygrwydd i greu eu darpariaeth a'u harlwy eu hunain i ddiwallu anghenion eu demograffeg myfyrwyr yn y ffordd orau, rydym yn disgwyl y dylai'r cymorth gynnwys, o leiaf:

- mentora;
- darparu ystod o weithgareddau cyflogadwyedd, gan gynnwys cymorth entrepreneuriaeth, mewn modd cyfunol;
- cyfeirio / mynediad â chymorth at ddarpariaeth cyflogadwyedd, cyfarwyddyd gyrfaoedd, menter a llesiant graidd pob prifysgol;
- darparu cyllid ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â datblygu cyflogadwyedd y myfyriwr, yn unol â'r cymorth a gynigir gan y darparwr AU ac a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni. Gweler paragraff 13 am ganllawiau ar hyn;
- profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, yn unol ag anghenion y myfyriwr. Gweler paragraffau 14-15 am ragor o ganllawiau ar hyn.

**Darparu cyllid**

13. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gynnig cyllid ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â datblygu cyflogadwyedd i fyfyrwyr. Bydd hyn naill ai'n ymdrin â rhwystrau sy'n atal myfyrwyr rhag ymgysylltu'n llawn â'r gweithgareddau a gynigir neu'n datblygu cyflogadwyedd y myfyriwr, yn unol â Chynllun Cyflawni pob darparwr. Hefyd:

- dylid defnyddio cyllid lle ceir rhesymeg eglur, y cytunwyd arni gan y myfyriwr a'r darparwr;
- mae'n ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod prosesau cadarn ar gyfer asesu a chymeradwyo cyllid, gan gynnwys cofnodi sut y mae'r cyllid:
  - yn dileu rhwystrau'r myfyriwr;
  - yn symud y myfyriwr yn nes at y farchnad lafur;
  - yn cyd-fynd â'r cynlluniau ar gyfer y myfyriwr hwnnw; ac
  - yn darparu ychwanegedd (h.y. sut y mae'n galluogi'r myfyriwr i gyflawni gweithgarwch na fyddai mewn sefyllfa i'w gyflawni hebddo);
- rhaid adolygu effaith y cyllid fel rhan o'r asesiad o'r pellter a deithiwyd;
- rhaid i ddarparwyr archwilio a oes ffynonellau cyllid eraill ar gael yn y lle cyntaf.

**Profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith**

14. Mae ymchwil yn dangos cydberthynas gref rhwng myfyrwyr sydd â phrofiadau o waith a deilliannau gwell i raddedigion[4]. Felly rydym yn disgwyl i ddarparwyr barhau i drefnu amrywiaeth o brofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith i fyfyrwyr a fyddai'n cael budd o ymgysylltu â chyflogwyr. Dylai hyn gael ei oleuo gan anghenion myfyrwyr, a bydd yn sicrhau bod myfyrwyr sydd o bosibl heb y cyfalaf cymdeithasol neu ariannol yn cael y cyfle i gael profiad ymarferol, datblygu cysylltiadau â chyflogwyr, a / neu ddysgu mwy am sector, llwybr gyrfa neu rôl swydd gan gyflogwyr. Hefyd, dylai'r

[4] Er enghraifft, Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education (TASO)

ymgysylltu hwn helpu darparwyr addysg uwch i barhau i ddangos manteision amrywiaethu eu gweithlu i gyflogwyr.

15. Rhaid i ddarparwyr sicrhau nad yw profiadau sy’n gysylltiedig â gwaith a drefnir ar gyfer myfyrwyr trwy’r cymorth hwn yn dyblygu nac yn disodli darpariaeth bresennol, boed yn ddarpariaeth a gynigir ganddynt hwy eu hunain (fel rhan o’r cwricwlwm neu’r tu allan iddo) neu’n ddarpariaeth trwy raglenni eraill. Rhaid i ddarparwyr sicrhau hefyd bod gweithgarwch yn gweithredu yn unol â rheolau Rheoli Cymorthdaliadau lle y bo’n berthnasol.

## Llais y myfyriwr

16. Mae llais y myfyriwr yn allweddol i asesu ansawdd a gwella’n barhaus. Trwy ystyried barn myfyrwyr, mae darparwyr yn gallu llywio gwelliannau yn neilliannau a chyrchfannau myfyrwyr. Er ein bod yn cydnabod bod darparwyr yn casglu adborth myfyrwyr sy’n cael y cymorth hwn, dylent barhau i ystyried mecanweithiau a ddefnyddir i gasglu barn myfyrwyr yn fwy eang na’r rhai a gefnogir trwy’r cyllid hwn. Dylai myfyrwyr fod yn rhan o gyd-greu cynlluniau cyflawni, ac o werthuso gweithgarwch a’i adolygu’n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau y bydd arlwy darparwr yn parhau i esblygu fel ei fod yn diwallu anghenion myfyrwyr yn effeithiol. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i gynlluniau gael eu datblygu ar y cyd ag Undebau Myfyrwyr a chael eu cymeradwyo ganddynt.

17. Mae Medr yn bwriadu sefydlu fforwm llais y dysgwr, i sicrhau ein bod yn gallu ystyried barn a blaenoriaethau dysgwyr, ynghyd ag adborth ehangach sy’n ystyried i ba raddau y mae anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu gan ddarparwyr ar draws y sector. Bydd hyn yn cynnwys sut y mae barn dysgwyr am ansawdd eu haddysg drydyddol yn cael ei hystyried a sut y mae’n cyfrannu at gynllunio ar gyfer gwella.

## Myfyrwyr AU sy’n astudio mewn sefydliadau AB dan drefniadau isgontractio

18. Yn unol â’n safbwynt rheoleiddiol, prifysgolion sy’n gyfrifol am drefnu bod y cymorth hwn yn hygyrch i’w myfyrwyr breiniol. Felly rydym yn disgwyl i brifysgolion adolygu eu darpariaeth freiniol i gadarnhau’r angen am y cymorth hwn. Dylai prifysgolion ddefnyddio dull cymesur o ennyn ymgysylltiad myfyrwyr breiniol, trwy adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng nghyfnodau’r cynlluniau cyflawni blaenorol ac ystyried ffyrdd arloesol pellach o ennyn ymgysylltiad y myfyrwyr breiniol hynny sydd bellaf o’r farchnad lafur a fyddai’n cael budd o’r cymorth hwn. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei nodi yn y Cynlluniau Cyflawni ar gyfer blynyddoedd academaidd 25/26 a 26/27 a byddwn yn monitro nifer y myfyrwyr breiniol a gefnogir.

## Ymgysylltiad graddedigion

19. Mae’r cyllid hwn wedi’i fwriadu i roi cymorth ataliol, i arfogi’r myfyrwyr sydd fwyaf mewn angen â’r wybodaeth, y sgiliau, yr hyder a’r cysylltiadau i gael deilliant cadarnhaol pan ydynt yn graddio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai nad yw rhai myfyrwyr mewn sefyllfa i ymgysylltu â’r cymorth hwn wrth astudio. Yn y lle

cyntaf, dylid cyfeirio graddedigion[5] at y cymorth mwyaf priodol i'w hanghenion, gan gynnwys arlwy graidd darparwr i'w raddedigion. Fodd bynnag, byddwn yn caniatáu i ddarparwyr gefnogi graddedigion lle mae gwasanaethau craidd neu ddeialog bellach yn dynodi:

- bod rhywun graddedig ymhlith y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur; ac
- bod rhywun graddedig yn uniaethu â grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel a nodir yng nghynllun cyflawni darparwr; ac
- y byddai rhywun graddedig yn cael budd o gymorth cyflogadwyedd estynedig.

20. Rhaid i ddarparwyr sy'n cefnogi graddedigion sicrhau:

- nad yw cyfran y graddedigion (h.y. unigolion sydd wedi gadael eu darparwr AU ar adeg y cyswllt) yn fwy na 10% o gyfanswm yr unigolion a gefnogir; ac
- nad yw'r cymorth a roddir yn ymestyn y tu hwnt i 15 mis o'r dyddiad graddio. Ar ôl yr adeg hon dylid eu cyfeirio at ddarpariaeth arall, yn ôl yr angen.

21. Byddwn yn monitro nifer y graddedigion a gefnogir yn gronnus ac yn ystod y flwyddyn yn ogystal â ffrâm amser y cymorth yn yr Adroddiadau Monitro Interim a Diwedd Blwyddyn. Wedyn byddwn yn asesu effaith y cyfyngiadau hyn.

**Y Gymraeg**

22. Yn ogystal ag ateb gofynion statudol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r gweithgarwch hwn. Bydd hyn yn cynnwys, lle y bo'n briodol, hyrwyddo manteision cyflogadwyedd y Gymraeg ymhlith myfyrwyr a chyflogwyr a chynyddu ymgysylltiad myfyrwyr a chyflogwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly anogir darparwyr i greu profiadau cysylltiedig â gwaith sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd amrywiol, fel y bo'n briodol, i ateb ac ysgogi'r galw ymhlith cyflogwyr a myfyrwyr. Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr adrodd ar nifer y myfyrwyr sy'n ymgysylltu ag agweddau ar gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg mewn adroddiadau monitro.

**Gweithgarwch cydweithredol**

23. Mae Cynllun Strategol Medr yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sy'n cynnwys cydweithio'n agos gyda'n partneriaid, yn ogystal â'n dyletswydd strategol i hybu cydweithio a chydlyniad. Felly mae rhoi anogaeth i gydweithio'n un o ymrwymiadau allweddol Medr ac mae'n cyd-fynd â'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr barhau â'r cydweithio traws-sector adeiladol a feithrinwyd ym maes gyrfaoedd a chyflogadwyedd dros y blynyddoedd.

24. Dylai cydweithio ychwanegu gwerth at yr hyn a gyflawnir gan bob darparwr ei hun, a darparu manteision a / neu ddarbodion maint i fyfyrwyr, cyflogwyr a darparwyr. Dylai fod o safbwynt cymorth cyflogadwyedd a deilliannau cyfartal i fyfyrwyr o grwpiau

[5] At ddibenion y cymorth hwn, rydym yn diffinio rhywun graddedig fel unigolyn sydd wedi graddio ar adeg y cyswllt cyntaf. Lle mae myfyrwyr yn parhau i gael eu cefnogi am gyfnod ar ôl graddio, dylid adrodd arnynt fel myfyrwyr yn yr adroddiad monitro. Rydym yn disgwyl mai dim ond i nifer gyfyngedig o fyfyrwyr y bydd hyn yn berthnasol.

sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a dylai ategu cydweithio o fath arall yn y maes hwn o fewn y sector AU.

25. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i Gymdeithas y Gwasanaethau Cynghori ar Yrfaoedd i Raddedigion yng Nghymru (AGCAS Cymru) ddarparu goruchwyliaeth ar y gweithgarwch cydweithredol, gan ei lywio fel ei fod yn dwyn deilliannau cadarnhaol i fyfyrwyr, cyflogwyr neu ddarparwyr neu'n gwella eu gwybodaeth, ac yn ymateb i'r gofynion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y cyhoeddiad hwn.

26. Pe bai darparwyr yn dewis cyfrannu cyfran o'u dyraniad i gronfa ar gyfer gweithgarwch cydweithredol, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i AGCAS Cymru ein hysbysu ynghylch ei defnydd bwriadedig, gan gynnwys sut y mae'n cyd-fynd â'r egwyddorion yn y canllawiau hyn a sut y maent wedi sicrhau derbyniad ar lefel strategol gan bob darparwr ar gyfer defnyddio'r arian yn y modd arfaethedig. Hefyd, rydym yn disgwyl bod gwybodaeth am fanteision y cydweithio'n cael ei chasglu gan ddarparwyr ac yr adroddir arni wrthym ni dros flynyddoedd academaidd 25/26 a 26/27 trwy ein prosesau monitro.

27. Yn unol â dyletswydd strategol Medr i hybu cydweithio a chydlyniad, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr AU ystyried ffyrdd y gallent gydweithio gyda darparwyr trydyddol eraill mewn perthynas â chyflogadwyedd, megis y Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau AB.

### Brand GO Wales: Cyflogadwyedd Myfyrwyr

28. Rhaid cadw brand GO Wales ar gyfer gweithgarwch allanol, h.y. ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ac unrhyw gydweithio ar draws y sector. Cysylltwch â ni os bydd arnoch angen logo GO Wales: Cyflogadwyedd Myfyrwyr, neu os bydd arnoch angen copi o'r canllawiau brand. Hefyd, gall darparwyr barhau i gyfeirio pobl, fel y bo'n briodol, at wefan GO Wales: Cyflogadwyedd Myfyrwyr.

### Asesu effeithiau

29. Rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni darparwyr ystyried cydraddoldeb a chroestoriadedd trwy adolygu a diweddaru eu Hasesiadau o Effaith y cyllid hwn ar Gydraddoldeb yn rheolaidd, i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol, a bod effaith dulliau darparwyr wedi cael ei hystyried yn llawn. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth am sut y mae unrhyw newidiadau i'r Asesiadau Effaith wedi siapio Cynlluniau Cyflawni ar gyfer blynyddoedd academaidd 25/26 a 26/27.

### Deilliannau a mesur effaith

30. Byddwn yn parhau â thrafodaethau gyda darparwyr am fesurau a ffyrdd eraill o asesu effaith y cyllid hwn, a byddwn yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno nifer o astudiaethau achos sy'n gymesur â lefel y cyllid a gafwyd i enghreifftio gweithgarwch ac effaith gyda'r Adroddiad Diwedd Blwyddyn.

31. Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr barhau i gofnodi pa fyfyrwyr sydd wedi cael eu cefnogi trwy'r cyllid hwn ar gofnod myfyrwyr HESA fel ein bod,

dros y tymor hwy, yn gallu tracio effaith y cyllid trwy'r data Deilliannau Graddedigion.[6] Mae allbynnau a deilliannau'r cyllid hwn yn dal i fod fel a ganlyn:

- nifer y myfyrwyr a gefnogwyd;
- nifer y myfyrwyr a gafodd brofiadau cysylltiedig â gwaith[7]; a
- nifer y myfyrwyr sydd o'r farn bod eu cyflogadwyedd wedi gwella i'r graddau nad oes angen cymorth cyflogadwyedd estynedig arnynt mwyach.

32. Gall darparwyr nodi allbynnau a / neu ddeilliannau ychwanegol yn eu Cynlluniau Cyflawni, ond nid yw hyn yn orfodol.

## Cyllid

33. Mae cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i gefnogi'r gweithgarwch hwn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2025 a 31 Gorffennaf 2026 yn £2m. Mae dyraniadau ariannol 2026/27 yn amodol ar gadarnhau cyllideb Medr a byddant yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r data diweddaraf gan HESA sydd ar gael yn ôl y fethodoleg gyllido a nodir ym mharagraffau 37 i 41. Rydym yn amcanu at hysbysu darparwyr ynghylch eu dyraniadau ar gyfer 2026/27 tuag at ddiwedd gwanwyn 2026.

34. Cyflwynir dyraniadau darparwyr yn 2025/26 yn y tabl isod, gan ddefnyddio data gwiriedig diweddaraf HESA ar gyfer 2023/24.

| Darparwr | Cyllid 2025/26 (£) |
|---|---:|
| Prifysgol De Cymru | 325,261 |
| Prifysgol Aberystwyth | 154,148 |
| Prifysgol Bangor | 150,304 |
| Prifysgol Caerdydd | 330,000 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 152,469 |
| Prifysgol Abertawe | 330,000 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 238,931 |
| Prifysgol Wrecsam | 100,000 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 176,503 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 32,385 |
| Grŵp NPTC Group | 5,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 5,000 |
| **Cyfanswm** | **2,000,000** |

35. Byddwn yn parhau i gyllido sefydliadau Addysg Bellach (SABau) i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio darpariaeth AU a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr. Felly byddwn yn

[6] I ddynodi bod myfyriwr yn cael cymorth fel rhan o gyllid Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu gan Medr, rhaid rhoi 021 i mewn yn y maes dynodwr menter myfyriwr STUINITID ar gofnod myfyrwyr HESA. Dylid defnyddio'r cod yma ar gyfer myfyrwyr a gefnogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cyfeirio.

[7] Dylai darparwyr adrodd ar brofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith y maent wedi'u trefnu ar gyfer y myfyriwr yn erbyn y deilliant hwn, ond rydym yn croesawu ar wahân bod darparwyr yn dynodi unrhyw brofiadau cysylltiedig â gwaith y maent wedi hwyluso'r ffordd i fyfyrwyr eu trefnu eu hunain, mewn adroddiadau monitro.

darparu cyllid yn unol â'r fethodoleg ym mharagraffau 37 i 41 i Grŵp Llandrillo Menai.

36. Fodd bynnag, o ystyried y niferoedd bychain o fyfyrwyr sy'n astudio darpariaeth AU a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr yng Ngrŵp NPTC a Choleg Gŵyr Abertawe, byddwn yn darparu swm penodedig o gyllid i'w galluogi i barhau i estyn gweithgarwch Biwroau Cyflogaeth a Menter i'r myfyrwyr hynny.

**Methodoleg gyllido**

37. Cyfrifir dyraniadau gan ddefnyddio cyfrif pennau o gyfran pob darparwr o fyfyrwyr ehangu mynediad cyllidadwy, sy'n hanu o bob gwlad, ac ar bob lefel, sy'n astudio ar ddwyster o >50%, gan gynnwys myfyrwyr breiniol, ar y sail bod myfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster is na hyn yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth.

38. Diffinnir myfyrwyr ehangu mynediad fel myfyrwyr:

- ag anabledd; neu
- o grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol – sy'n hanu o'r DU yn unig; neu
- sy'n gadael gofal; neu
- o ardal amddifadus (cwintelau 1 neu 2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 ar gyfer yr holl israddedigion); neu
- o ardal â chyfranogiad isel mewn AU – cwintelau 1 neu 2 POLAR4 (cyfranogiad ardaloedd lleol) ar gyfer israddedigion amser llawn 20 oed neu iau ar ddechrau eu cwrs; cwintelau 1 neu 2 ADULTHE (cyfran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefel AU fel y'u mesurwyd gan gyfrifiad 2011) ar gyfer israddedigion amser llawn 21 oed neu drosodd ar ddechrau eu cwrs a'r holl israddedigion rhan-amser); neu
- â rhieni heb unrhyw gymwysterau AU – israddedigion sy'n hanu o'r DU yn unig.

39. Ar gyfer prifysgolion, mae'r model cyllido'n ymgorffori terfyn isaf o £100,000, i sicrhau isafswm capasiti i gyflawni gweithgarwch, a therfyn uchaf o £330,000. Ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai, rydym wedi cynnwys terfyn isaf o £25,000, sy'n ystyried nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau AU a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr yn ogystal â darparu isafswm capasiti ar gyfer staffio i gyflawni gweithgarwch.

40. Cyfrifwyd y dyraniad ar sail pro rata ac yna fe gymhwyswyd y terfyn isaf a'r terfyn uchaf. Roedd yr arian a ddidynnwyd gan ddarparwyr uwchlaw'r terfyn cyllid uchaf yn fwy na'r arian ychwanegol a oedd yn ofynnol i godi darparwyr i'r terfyn cyllid isaf. Er mwyn cynnal cyfanswm cyllid o £2 filiwn, fe ailddosbarthwyd y gyllideb dros ben ar draws darparwyr rhwng y terfyn cyllid isaf a'r terfyn cyllid uchaf ar sail pro rata.

41. Rhaid i ddarparwyr ddefnyddio'r cyllid i gefnogi'r myfyrwyr y mae arnynt fwyaf angen yr ymyrraeth, fel a ddisgrifir yn eu Cynlluniau Cyflawni, ac ni chyfyngir arnynt gan y paramedrau a ddefnyddiwyd ar gyfer y fethodoleg gyllido.

### Trefniadau monitro a thalu 2025/26

42. Byddwn yn talu 50% o ddyraniad darparwr yn dilyn cymeradwyo eu Cynllun Cyflawni a'u hadroddiad monitro diwedd blwyddyn ar gyfer 2024/25. Bydd y 50% terfynol o'r dyraniad yn cael ei dalu yn amodol ar fonitro interim boddhaol yn 2025/26, ar yr amod bod darparwr wedi neilltuo o leiaf 75% o'r taliad cyntaf.

43. Trefnir bod y cyllid ar gael gyda'r amodau cyffredinol ar gyfer talu arian gan Medr i Gorff Llywodraethu sefydliad. Caiff y rhain eu nodi yn Nhelerau ac Amodau cyllid 2025/26.

44. Bydd adroddiad monitro interim yn ofynnol ym mis Chwefror 2026 a hwnnw'n nodi gweithgarwch hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2025, gan gynnwys nifer yr unigolion a gefnogwyd (wedi'i rannu yn ôl myfyrwyr, myfyrwyr breiniol a graddedigion), yn ogystal â data ar eu manylion demograffig. Hefyd, bydd yn ofynnol i ni gael data ar nifer yr unigolion a gafodd brofiadau cysylltiedig â gwaith a nifer yr unigolion a gefnogwyd sydd o'r farn bod eu cyflogadwyedd wedi gwella i'r graddau nad ydynt yn cael cymorth cyflogadwyedd estynedig mwyach. Darparwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r data gofynnol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, fel bod sail gadarn i asesu effaith y cyllid a deilliannau'r myfyrwyr.

45. Bydd Adroddiad Diwedd Blwyddyn yn ofynnol ym mis Medi 2026 a hwnnw'n gofyn am wybodaeth wedi'i diweddaru am weithgarwch, data ac effaith cyllid hyd at 31 Gorffennaf 2026. Bydd nifer o astudiaethau achos yn ofynnol, yn gymesur â swm y gweithgarwch a gyllidwyd. Mae angen i'r astudiaethau achos fod yn addas i'w cyhoeddi.

46. Byddwn yn darparu templedi ar gyfer yr Adroddiad Monitro Interim, yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn ac achosion achos i ddarparwyr eu cyflwyno i Medr.

47. Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr gadarnhau gwariant gwirioneddol 2025/26 yn yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn. Rydym yn cadw'r hawl i adfer unrhyw ddyraniad cyllideb nad yw wedi cael ei wario (h.y. ei dalu allan) erbyn 31 Gorffennaf 2026. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddyraniad darparwr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

### Llinell amser

48. Caiff yr amserlen ar gyfer y cynllun ac adroddiadau gofynnol a thaliadau ei chyflwyno yn y tabl isod.

| Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|
| Terfyn amser ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Cyflawni | 19 Medi 2025 |
| Talu 50% o gyfanswm y dyraniad | Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni / Adroddiad Diwedd Blwyddyn ar gyfer 2024/25 |
| Terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r adroddiad monitro interim | 13 Chwefror 2026 |

| | |
|---|---|
| Talu'r 50% sy'n weddill o gyfanswm y dyraniad, ar yr amod bod o leiaf 75% o'r dyraniad cyntaf wedi cael ei neilltuo | Ar ôl cymeradwyo'r Adroddiad Monitro |
| Terfyn amser ar gyfer cyflwyno Adroddiad Diwedd Blwyddyn ac Astudiaethau Achos 2025/26 | 18 Medi 2026 |

**Rhagor o wybodaeth / ymatebion i**

49. Dylai darparwyr gyflwyno Cynlluniau Cyflawni wedi'u llofnodi mewn fformat Word i Rachel O'Gorman, rachel.ogorman@medr.cymru erbyn 19 Medi 2025. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Cyflawni gael eu cymeradwyo gan bennaeth y sefydliad.

50. Dylai prifysgolion a Grŵp Llandrillo Menai ddefnyddio'r templedi yn **Atodiad A** ac **Atodiad B**; dylai Grŵp NPTC a Choleg Gŵyr Abertawe ddefnyddio'r templed yn **Atodiad C**, gan gydnabod y dull gwahanol a lefel y cyllid a ddarperir.

51. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Mock emma.mock@medr.cymru neu Rachel O'Gorman rachel.ogorman@medr.cymru.

**Asesu effaith ein polisïau**

52. Rydym wedi cynnal asesiad effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith y polisi hwn ar y Gymraeg, darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru, nodweddion economaidd-gymdeithasol ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government